



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2014 Rhif 2553 (Cy. 247)**

**2014 No. 2553 (W. 247)**

## **TAI, CYMRU**

## **HOUSING, WALES**

**Rheoliadau Gweithdrefnau a  
Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl  
(Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014**

**The Residential Property Tribunal  
Procedures and Fees (Wales)  
(Amendment No. 2) Regulations  
2014**

### **NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

### **EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of these Regulations)*

Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (“Deddf 2013”) yn cydgrynhoi darpariaethau presennol mewn perthynas â safleoedd cartrefi symudol preswyl, ac yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r modd y rheolir ac y cynhelir safleoedd cartrefi symudol preswyl yng Nghymru.

Mae Rheoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/1764 (Cy.179)) (“y Rheoliadau Rheolau Safle”) wedi eu gwneud o dan Ddeddf 2013 ac yn cyflwyno seiliau newydd ar gyfer ceisiadau i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl (“y tribiwnlys”).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012 (“y Prif Reoliadau”) yng ngoleuni Deddf 2013 a'r Rheoliadau Rheolau Safle. Diwygir y Prif Reoliadau i ddiweddarar cyfeiriadau at Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 fel eu bod yn cyfeirio at ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf 2013. Yn ychwanegol, gwneir darpariaeth mewn perthynas â cheisiadau newydd y caniateir eu gwneud i'r tribiwnlys o dan Ddeddf 2013 a'r Rheoliadau Rheolau Safle.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi o'r Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The Mobile Homes (Wales) Act 2013 (“the 2013 Act”) consolidates existing provisions regarding residential mobile home sites, and makes provision in relation to how residential mobile home sites are managed and maintained in Wales.

The Mobile Homes (Site Rules) (Wales) Regulations 2014 (S.I. 2014/1764 (W.179)) (“the Site Rules Regulations”) are made under the 2013 Act and introduce new grounds for applications to the Residential Property Tribunal (“the tribunal”).

These Regulations amend the Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) Regulations 2012 (“the Principal Regulations”) in light of the 2013 Act and the Site Rules Regulations. The Principal Regulations are amended to update references to the Mobile Homes Act 1983 to the equivalent provision in the 2013 Act. In addition, provision is made in respect of new applications which may be made to the tribunal under the 2013 Act and the Site Rules Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Housing Policy Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2014 Rhif 2553 (Cy. 247)**

**2014 No. 2553 (W. 247)**

**TAI, CYMRU**

**HOUSING, WALES**

Rheoliadau Gweithdrefnau a  
Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl  
(Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014

The Residential Property Tribunal  
Procedures and Fees (Wales)  
(Amendment No. 2) Regulations  
2014

*Gwnaed* 17 Medi 2014

*Made* 17 September 2014

*Yn dod i rym* 1 Hydref 2014

*Coming into force* 1 October 2014

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a freiniwyd ynddynt hwy(1) gan adran 250(2) o Ddeddf Tai 2004(2) ac Atodlen 13 i'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers vested in them(1) by section 250(2) of, and Schedule 13 to, the Housing Act 2004(2) make the following Regulations.

Yn unol ag adran 250(6)(g) o'r Ddeddf honno(3) mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

In accordance with section 250(6)(g) of that Act(3) a draft of these Regulations has been laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.—(1)** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014 a deuant i rym ar 1 Hydref 2014.

**Title, commencement and application**

**1.—(1)** The title of these Regulations is the Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) (Amendment No. 2) Regulations 2014 and they come into force on 1 October 2014.

---

(1) Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Tai 2004 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30(2)(c) o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(2) 2004 p. 34.

(3) Yr un, neu'r un i raddau sylweddol, yw'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ddeddf Tai 2004 â'r swyddogaeth sy'n arferadwy o ran Lloegr. Mae adran 250(6)(g) o'r Ddeddf honno'n darparu bod rhaid i Rheoliadau a wneir yn rhinwedd paragraff 11(3)(b) neu 12(3)(b) o Atodlen 13 i'r Ddeddf honno gael eu gosod gerbron a'u cymeradwyo gan benderfyniad dau Dŷ'r Senedd. Yn rhinwedd paragraff 34(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r ddarpariaeth yn gymwys i arfer y swyddogaeth honno o wneud y rheoliadau gan Weinidogion Cymru, fel pe bai unrhyw gyfeiriad at naill Dŷ'r Senedd neu'r llall yn gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

---

(1) The functions conferred on the National Assembly for Wales by the Housing Act 2004 are exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30(2)(c) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(2) 2004 c. 34.

(3) The function of making regulations under the Housing Act 2004 is the same or substantially the same function as exercisable in relation to England. Section 250(6)(g) of that Act provides that any Regulations made by virtue of paragraph 11(3)(b) or 12(3)(b) of Schedule 13 to that Act must be laid before and approved by a resolution of each House of Parliament. By virtue of paragraph 34(2) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32), the provision applies to the exercise by the Welsh Ministers of the function of making the regulations as if any reference to either House of Parliament were a reference to the National Assembly for Wales.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i achosion gerbron tribiwnlysoedd eiddo preswyl ar gyfer penderfynu ceisiadau mewn perthynas â mangreuedd yng Nghymru.

(3) Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a wneir ar neu ar ôl 1 Hydref 2014.

**Diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012**

2. Mae Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012(1) wedi eu diwygio yn unol â'r Atodlen.

(2) These Regulations apply to proceedings of residential property tribunals for determining applications in respect of premises in Wales.

(3) The amendments made by these Regulations apply in relation to applications made on or after 1 October 2014.

**Amendment of the Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) Regulations 2012**

2. The Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) Regulations 2012(1) are amended in accordance with the Schedule.

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru

17 Medi 2014

Minister for Communities and Tackling Poverty, one of the Welsh Ministers

17 September 2014

---

(1) O.S. 2012/531 (Cy. 83).

---

(1) S.I. 2012/531 (W. 83).

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

*Diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012*

### 1. Yn rheoliad 2—

- (a) hepgorer y diffiniad o “Deddf 1983”;
- (b) yn y man priodol mewnosoder “ystyr “Deddf 2013” (“*the 2013 Act*”) yw Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013(1);”;
- (c) yn y diffiniad o “cais”—
  - (i) ar ddiwedd paragraff (b), hepgorer “neu”;
  - (ii) ym mharagraff (c), yn lle “Deddf 1983” rhodder “Deddf 2013”;
  - (iii) ar ddiwedd paragraff (c), yn lle “,” rhodder “; neu”; a
  - (iv) ar ôl paragraff (c), mewnosoder—  
“*(ch) y Rheoliadau Rheolau Safle,*”;
- (d) yn y diffiniad o “person â buddiant”—
  - (i) ym mharagraff (ch), yn lle “o dan Ddeddf 1983” rhodder “o dan Ran 4 o Ddeddf 2013, neu Atodlen 2 i’r Ddeddf honno”;
  - (ii) ym mharagraff (d), yn lle “o dan baragraffau 8 neu 9 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983” rhodder “o dan baragraffau 9 i 13 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013”;
  - (iii) ym mharagraff (dd), yn lle “o dan baragraff 6A(2)(a) neu 6A(2)(b) o Bennod 4 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983” rhodder “o dan baragraffau 41(1)(a) neu 41(1)(b) o Bennod 4 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013”; a
  - (iv) ar ôl paragraff (e), mewnosoder—  
“*(f) mewn perthynas â chais o dan Ran 2 o Ddeddf 2013, pan fo’n gymwys, perchennog y safle neu reolwr y safle, os nad yw’r person hwnnw’n barti i’r cais,*”;
- (e) yn y diffiniad o “cartref symudol” yn lle “adran 5(1) o Ddeddf 1983” rhodder “adran 60 o Ddeddf 2013”;
- (f) yn y diffiniad o “meddiannydd” yn lle pob cyfeiriad at “Deddf 1983” rhodder “Deddf 2013”, ac yn lle pob cyfeiriad at “Ddeddf 1983” rhodder “Ddeddf 2013”;

(1) 2013 decc 6.

## SCHEDULE

Regulation 2

*Amendment of the Residential Property Tribunal Procedures and Fees (Wales) Regulations 2012*

### 1. In regulation 2—

- (a) omit the definition of “the 1983 Act”;
- (b) at the appropriate place insert ““the 2013 Act” (“*Deddf 2013*”) means the Mobile Homes (Wales) Act 2013(1);”;
- (c) in the definition of “application”—
  - (i) at the end of paragraph (b), omit “or”;
  - (ii) in paragraph (c), for “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”;
  - (iii) at the end of paragraph (c), for “,” substitute “; or”; and
  - (iv) after paragraph (c), insert—  
“(d) the Site Rules Regulations,”;
- (d) in the definition of “interested person”—
  - (i) in paragraph (d), for “the 1983 Act” substitute “Part 4 of, or Schedule 2 to, the 2013 Act”;
  - (ii) in paragraph (e), for “paragraphs 8 or 9 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act” substitute “paragraphs 9 to 13 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act”;
  - (iii) in paragraph (f), for “paragraph 6A(2)(a) or 6A(2)(b) of Chapter 4 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act” substitute “paragraphs 41(1)(a) or 41(1)(b) of Chapter 4 of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act”; and
  - (iv) after paragraph (g), insert—  
“(h) in relation to an application under Part 2 of the 2013 Act, where applicable, the site owner or the site manager, where that person is not a party to the application,”;
- (e) in the definition of “mobile home” for “section 5(1) of the 1983 Act” substitute “section 60 of the 2013 Act”;
- (f) in the definition of “occupier” for each reference to “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”;

(1) 2013 anaw 6.

- (g) yn y diffiniad o “llain” yn lle “ym Mhennod 1 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983” rhodder “yn adran 55 o Ddeddf 2013”;
- (h) yn y diffiniad o “mangre” yn lle pob cyfeiriad at “Ddeddf 1983” rhodder “Ddeddf 2013”;
- (i) yn y diffiniad o “safle a ddiogelir” yn lle “adran 5(1) o Ddeddf 1983” rhodder “adran 2(2) o Ddeddf 2013”;
- (j) yn y diffiniad o “cymdeithas preswylwyr gymwys” yn lle “Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983” rhodder “adran 61 o Ddeddf 2013”;
- (k) yn y diffiniad o “perchennog safle” yn lle “adran 5(1) o Ddeddf 1983” rhodder “adran 62 o Ddeddf 2013”; ac
- (l) yn y man priodol mewnosoder “ystyr “y Rheoliadau Rheolau Safle” (“*the Site Rules Regulations*”) yw Rheoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014(1)”.

2. Yn rheoliad 4(1), yn lle “neu Ddeddf 1983”, rhodder “, Deddf 2013, neu’r Rheoliadau Rheolau Safle”.

3. Yn rheoliad 5—

- (a) yn y pennawd, yn lle “o dan Ddeddf 1983” rhodder “o dan Ddeddf 2013”; a
- (b) ym mharagraffau (1) a (2), yn lle pob cyfeiriad at “Ddeddf 1983” rhodder “Ddeddf 2013”.

4. Yn rheoliad 7—

- (a) yn y pennawd, yn lle “o dan Ddeddf 1983” rhodder “o dan Ddeddf 2013”; a
- (b) ym mharagraff (1), yn lle “o dan Ddeddf 1983” rhodder “o dan Ddeddf 2013”.

5. Hepgorer rheoliad 11.

6. Yn rheoliad 12—

- (a) yn y pennawd, yn lle “o dan Ddeddf 1983” rhodder “o dan Ddeddf 2013”;
- (b) ym mharagraff (1), yn lle “o dan baragraff 5A(2)(a) o Bennod 2, neu baragraff 6(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983” rhodder “o dan baragraff 7(1)(a) o Bennod 2, neu baragraff 40(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013”;
- (c) ym mharagraff (3)(a), yn lle “o dan baragraff 5A(2)(a) o Bennod 2, neu baragraff 6(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983” rhodder “o dan baragraff 7(1)(a) o

- (g) in the definition of “pitch” for “Chapter 1 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act” substitute “section 55 of the 2013 Act”;
- (h) in the definition of “premises” for each reference to “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”;
- (i) in the definition of “protected site” for “section 5(1) of the 1983 Act” substitute “section 2(2) of the 2013 Act”;
- (j) in the definition of “qualifying residents’ association” for “Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act” substitute “section 61 of the 2013 Act”;
- (k) in the definition of “site owner” for “section 5(1) of the 1983 Act” substitute “section 62 of the 2013 Act”; and
- (l) at the appropriate place insert ““the Site Rules Regulations” (“*y Rheoliadau Rheolau Safle*”) means the Mobile Homes (Site Rules) (Wales) Regulations 2014(1)”.

2. In regulation 4(1), for “or the 1983 Act”, substitute “, the 2013 Act, or the Site Rules Regulations”.

3. In regulation 5—

- (a) in the heading, for “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”; and
- (b) in paragraphs (1) and (2), for each reference to “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”.

4. In regulation 7—

- (a) in the heading, for “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”; and
- (b) in paragraph (1), for “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”.

5. Omit regulation 11.

6. In regulation 12—

- (a) in the heading, for “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”;
- (b) in paragraph (1), for “paragraph 5A(2)(a) of Chapter 2, or paragraph 6(1)(a) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act” substitute “paragraph 7(1)(a) of Chapter 2, or paragraph 40(1)(a) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act”;
- (c) in paragraph (3)(a), for “paragraph 5A(2)(a) of Chapter 2, or paragraph 6(1)(a) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act” substitute “paragraph 7(1)(a) of Chapter 2, or

Bennod 2, neu baragraff 40(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013”;

- (d) ym mharagraff (3)(b), yn lle “paragraff 5A(4) o Bennod 2, neu baragraff 6(2) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno” rhodder “paragraff 7(3) o Bennod 2, neu baragraff 40(3) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno”; ac
- (e) ym mharagraff (6)(c), yn lle “o dan baragraff 5A(2)(a) o Bennod 2, neu baragraff 6(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983” rhodder “o dan baragraff 7(1)(a) o Bennod 2, neu baragraff 40(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013”.

7. Yn rheoliad 14(1)(b), yn lle “o dan Ddeddf 1983” rhodder “o dan Ddeddf 2013”.

8. Yn rheoliad 21—

- (a) ym mharagraff (5), yn lle “o dan baragraffau 4, 5, 5A neu 10 o Bennod 2, neu baragraffau 4, 5, 6 neu 8 o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983” rhodder “o dan baragraffau 5, 6, 7 neu 14 o Bennod 2, neu baragraffau 38, 39, 40 neu 44 o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013”; a
- (b) ym mharagraff (7), hepgorer “neu reoliad 11 (ceisiadau brys o dan Ddeddf 1983 mewn perthynas â gwerthu neu roi cartref symudol)”.

9. Yn rheoliad 22(5), hepgorer “neu reoliad 11 (ceisiadau brys o dan Ddeddf 1983 mewn perthynas â gwerthu neu roi cartref symudol)”.

10. Yn rheoliad 35, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Mewn perthynas â chais i'r tribiwnlys o dan Ddeddf 2013 neu'r Rheoliadau Rheolau Safle, ni chaiff y swm y caniateir gorchymyn i barti mewn achos ei dalu yn yr achos, drwy benderfyniad a wneir o dan baragraff 12 o Atodlen 13 i Ddeddf 2004, fod yn fwy na £10,000.”

11. Yn rheoliad 40(5), yn lle “Deddf 1983” rhodder “Deddf 2013”.

12. Yn rheoliad 45—

- (a) ym mharagraff (1) yn lle “£150” rhodder “£155”; a
- (b) ym mharagraff (2) yn lle “£150” rhodder “£155”.

13. Yn rheoliad 46, yn lle “£150” rhodder “£155”.

14. Yn rheoliad 47—

- (a) yn y pennawd, yn lle “o dan Ddeddf 1983” rhodder “o dan Ddeddf 2013”;
- (b) hepgorer paragraff (1);

paragraph 40(1)(a) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act”;

- (d) in paragraph (3)(b), for “paragraph 5A(4) of Chapter 2, or paragraph 6(2) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule” substitute “paragraph 7(3) of Chapter 2, or paragraph 40(3) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule”; and
- (e) in paragraph (6)(c), for “paragraph 5A(2)(a) of Chapter 2, or paragraph 6(1)(a) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act” substitute “paragraph 7(1)(a) of Chapter 2, or paragraph 40(1)(a) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act”.

7. In regulation 14(1)(b), for “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”.

8. In regulation 21—

- (a) in paragraph (5), for “paragraphs 4, 5, 5A or 10 of Chapter 2, or paragraphs 4, 5, 6 or 8 of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act” substitute “paragraphs 5, 6, 7 or 14 of Chapter 2, or paragraphs 38, 39, 40 or 44 of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act”; and
- (b) in paragraph (7), omit “or regulation 11 (urgent applications under the 1983 Act relating to sale or gift of a mobile home)”.

9. In regulation 22(5), omit “or regulation 11 (urgent applications under the 1983 Act relating to sale or gift of a mobile home)”.

10. In regulation 35, after paragraph (2) insert—

“(3) In respect of an application to the tribunal under the 2013 Act or the Site Rules Regulations, the amount which a party to proceedings may be ordered to pay in the proceedings by a determination made under paragraph 12 of Schedule 13 to the 2004 Act must not exceed £10,000.”

11. In regulation 40(5), for “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”.

12. In regulation 45—

- (a) in paragraph (1) for “£150” substitute “£155”; and
- (b) in paragraph (2) for “£150” substitute “£155”.

13. In regulation 46, for “£150” substitute “£155”.

14. In regulation 47—

- (a) in the heading, for “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”;
- (b) omit paragraph (1);

(c) ar ôl paragraff (1), mewnosoder—

“(1A) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) a rheoliad 49(2), mae ffi o £155 yn daladwy am gais i dribiwnlys o dan reoliad 10 (hawl i apelio i dribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniad y perchennog) a rheoliad 17 (hawl i apelio i dribiwnlys ynghylch adneuad) o’r Rheoliadau Rheolau Safle.”;

(d) ym mharagraff (2), yn lle “Deddf 1983” rhodder “Deddf 2013”;

(e) yn lle paragraff (2)(a) i (d), rhodder—

“(a) adran 7(4)(b) (trwydded safle: gwrthod dyroddi);

(b) adran 12(2) (amodau trwydded safle: apêl);

(c) adran 14(1) (amrywio amodau trwydded safle: apêl);

(ch) adran 17(2) (hysbysiad cydymffurfio: apêl);

(d) adran 21(9) (camau brys: apêl);

(dd) adran 22(7) (hawlio treuliau: apêl);

(e) adran 28(2) (cais gan awdurdod lleol am ddirymu trwydded safle);

(f) adran 29(6)(b) (person addas a phriodol);

(ff) adran 30(5) (rheolwr interim);

(g) adran 33(4) (gorchymyn ad-dalu);

(ng) adran 49(5) (datganiad ysgrifenedig);

(h) adran 50(2) neu (3) (telerau ymhlyg/datganedig mewn cytundeb safle);

(i) adran 54 (awdurdodaeth tribiwnlys neu’r llys);

(j) paragraffau 5, 6 neu 7 o Bennod 2, neu baragraffau 38, 39 neu 40(1) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 (terfynu);

(l) paragraffau 10 neu 13 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 (gwerthu neu roi cartref symudol);

(ll) paragraffau 14 o Bennod 2, neu 44 o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 (ail-leoli cartref symudol); ac

(m) paragraff 42(8) o Bennod 4 o Ran 1 o Atodlen 2 (aseinio cytundeb).”;

(f) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (a) yn lle “£150” rhodder “£155”;

(ii) yn is-baragraff (b) yn lle “£200” rhodder “£205”;

(c) after paragraph (1), insert—

“(1A) Subject to paragraph (5) and regulation 49(2) a fee of £155 is payable for an application to a tribunal under regulation 10 (right to appeal to tribunal in relation to the owner’s decision) and regulation 17 (right to appeal to tribunal in relation to a deposit) of the Site Rules Regulations.”;

(d) in paragraph (2), for “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”;

(e) for paragraph (2)(a) to (e), substitute—

“(a) section 7(4)(b) (site licence: refusal to issue);

(b) section 12(2) (conditions of site licence: appeal);

(c) section 14(1) (variation of conditions of site licence: appeal);

(d) section 17(2) (compliance notice: appeal);

(e) section 21(9) (emergency action: appeal);

(f) section 22(7) (demand for expenses: appeal);

(g) section 28(2) (local authority application to revoke site licence);

(h) section 29(6)(b) (fit and proper person);

(i) section 30(5) (interim manager);

(j) section 33(4) (repayment order);

(k) section 49(5) (written statement);

(l) section 50(2) or (3) (implied/express terms in site agreement);

(m) section 54 (jurisdiction of a tribunal or the court);

(n) paragraphs 5, 6 or 7 of Chapter 2, or paragraphs 38, 39 or 40(1) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 (termination);

(o) paragraphs 10 or 13 of Chapter 2 of Part 1 of Schedule 2 (sale or gift of a mobile home);

(p) paragraphs 14 of Chapter 2, or 44 of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 (re-siting of mobile home); and

(q) paragraph 42(8) of Chapter 4 of Part 1 of Schedule 2 (assignment of agreement).”;

(f) in paragraph (3)—

(i) in sub-paragraph (a) for “£150” substitute “£155”;

(ii) in sub-paragraph (b) for “£200” substitute “£205”;

- |  |  |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>(iii) yn is-baragraff (c) yn lle “£400” rhodder “£410”; a</li> <li>(iv) yn is-baragraff (ch) yn lle “£500” rhodder “£515”;</li> <li>(g) ym mharagraff (4)(a), yn lle “o Ddeddf 1983” rhodder “o Ddeddf 2013”; ac</li> <li>(h) ym mharagraff (5), yn lle “o dan Ddeddf 1983” rhodder “o dan Ddeddf 2013”.</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>(iii) in sub-paragraph (c) for “£400” substitute “£410”; and</li> <li>(iv) in sub-paragraph (d) for “£500” substitute “£515”;</li> <li>(g) in paragraph (4)(a), for “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”; and</li> <li>(h) in paragraph (5), for “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”.</li> </ul> |
|--|--|
- 
- |   |  |
|---|--|
| <p><b>15. Yn yr Atodlen—</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) yn y pennawd uwchben paragraff 50, yn lle “o dan Ddeddf 1983” rhodder “o dan Ddeddf 2013”;</li> <li>(b) ym mharagraff 50— <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) yn is-baragraff (1), yn lle “adran 1(6) o Ddeddf 1983 (hawl i gael datganiad ysgrifenedig)” rhodder “adran 49(5) o Ddeddf 2013 (hawl i gael datganiad ysgrifenedig).”; a</li> <li>(ii) yn is-baragraff (2), yn lle “adran 1(2) o Ddeddf 1983” rhodder “adran 49(1) o Ddeddf 2013”;</li> </ul> </li> <li>(c) ym mharagraff 51— <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) yn is-baragraff (1), yn lle “adran 2(2) o Ddeddf 1983 (telerau a grybwyllir yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 yn oblygedig)” rhodder “adran 50(2) o Ddeddf 2013 (telerau a grybwyllir yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 yn ymhlyg).”; a</li> <li>(ii) yn is-baragraff (2), yn lle “Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983” rhodder “Rhan 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013”;</li> </ul> </li> <li>(d) ym mharagraff 52— <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) yn is-baragraff (1), yn lle “adran 2(3)(a) o Ddeddf 1983 (amrywio neu ddileu unrhyw un o delerau datganedig y cytundeb)” rhodder “adran 50(3)(a) o Ddeddf 2013 (amrywio neu ddileu unrhyw un o delerau datganedig y cytundeb).”; a</li> <li>(ii) yn is-baragraff (2)(b)(i), yn lle “adran 1(6) o Ddeddf 1983” rhodder “adran 49(5) o Ddeddf 2013”; a</li> <li>(iii) yn is-baragraff (2)(b)(ii), yn lle “adran 1(6) o Ddeddf 1983” rhodder “adran 49(5) o Ddeddf 2013”;</li> </ul> </li> <li>(e) ym mharagraff 53— <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) yn y pennawd, yn lle “o dan Ddeddf 1983” rhodder “o dan Ddeddf 2013”; a</li> <li>(ii) yn is-baragraff (1), yn lle “adran 4 o Ddeddf 1983 (penderfynu unrhyw gwestiwn sy’n codi o dan Ddeddf 1983 neu o dan gytundeb y mae’r Ddeddf</li> </ul> </li> </ul> | <p><b>15. In the Schedule—</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) in the heading above paragraph 50, for “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”;</li> <li>(b) in paragraph 50— <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) in sub-paragraph (1), for “section 1(6) of the 1983 Act (right to have a written statement)” substitute “section 49(5) of the 2013 Act (right to have a written statement).”; and</li> <li>(ii) in sub-paragraph (2), for “section 1(2) of the 1983 Act” substitute “section 49(1) of the 2013 Act”;</li> </ul> </li> <li>(c) in paragraph 51— <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) in sub-paragraph (1), for “section 2(2) of the 1983 Act (terms mentioned in Part 2 of Schedule 1 to the 1983 Act to be implied)” substitute “section 50(2) of the 2013 Act (terms mentioned in Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act to be implied).”; and</li> <li>(ii) in sub-paragraph (2), for “Part 2 of Schedule 1 to the 1983 Act” substitute “Part 2 of Schedule 2 to the 2013 Act”;</li> </ul> </li> <li>(d) in paragraph 52— <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) in sub-paragraph (1), for “section 2(3)(a) of the 1983 Act (varying or deleting any express term of the agreement)” substitute “section 50(3)(a) of the 2013 Act (varying or deleting any express term of the agreement).”; a</li> <li>(ii) in sub-paragraph (2)(b)(i), for “section 1(6) of the 1983 Act” substitute “section 49(5) of the 2013 Act”; and</li> <li>(iii) in sub-paragraph (2)(b)(ii), for “section 1(6) of the 1983 Act” substitute “section 49(5) of the 2013 Act”;</li> </ul> </li> <li>(e) in paragraph 53— <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) in the heading, for “the 1983 Act” substitute “the 2013 Act”; and</li> <li>(ii) in sub-paragraph (1), for “section 4 of the 1983 Act (determination of any question arising under the 1983 Act or agreement to which it applies)” substitute “section</li> </ul> </li> </ul> |
|---|--|



honno'n gymwys iddo)" rhodder "adran 54 o Ddeddf 2013 (penderfynu ar unrhyw gwestiwn sy'n codi o dan Ran 4 o Ddeddf 2013 neu gytundeb y mae'r Rhan honno'n gymwys iddo)";

(f) ym mharagraff 54—

- (i) yn is-baragraff (1), yn lle "o dan baragraff 5A(2)(a) o Bennod 2, neu baragraff 6(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (penderfyniad gan dribiwnlys ynghylch effaith niweidiol cartref symudol)" rhodder "o dan baragraff 7(1)(a) o Bennod 2, neu baragraff 40(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (penderfyniad gan dribiwnlys ynghylch effaith andwyol cartref symudol)"; a
- (ii) yn is-baragraff (2)(a), yn lle "o dan baragraff 5A(2) o Bennod 2, neu baragraff 6(1) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno" rhodder "o dan baragraff 7(1) o Bennod 2, neu baragraff 40(1) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno";

(g) ym mharagraff 55—

- (i) yn is-baragraff (1), yn lle "o dan baragraff 4, 5 neu 5A(2)(b) o Bennod 2, neu baragraffau 4, 5 neu 6(1)(b) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (terfynu gan berchennog y safle)" rhodder "o dan baragraffau 5, 6 neu 7(1)(b) o Bennod 2, neu baragraffau 38, 39 neu 40(1)(b) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (terfynu gan berchennog y safle)";
- (ii) yn is-baragraff (2)(b), yn lle "o dan baragraff 4, 5 neu 5A(2) o Bennod 2, neu baragraffau 4, 5 neu 6(1)(b) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno" rhodder "o dan baragraffau 5, 6 neu 7(1) o Bennod 2, neu baragraffau 38, 39 neu 40(1)(b) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno";
- (iii) yn is-baragraff (2)(c), yn lle "o dan baragraff 4 o Bennod 2, neu baragraff 4 o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno" rhodder "o dan baragraff 5 o Bennod 2, neu baragraff 38 o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno"; a
- (iv) yn is-baragraff (2)(d), yn lle "o dan baragraff 5A(2) o Bennod 2, neu baragraff 6(1) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno" rhodder "o dan baragraff 7(1) o Bennod 2, neu baragraff 40(1) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno";

(h) ym mharagraff 56—

54 of the 2013 Act (determination of any question arising under Part 4 of the 2013 Act or agreement to which it applies)";

(f) in paragraph 54—

- (i) in sub-paragraph (1), for "paragraph 5A(2)(a) of Chapter 2, or paragraph 6(1)(a) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act (determination by tribunal of detrimental effect of mobile home)" substitute "paragraph 7(1)(a) of Chapter 2, or paragraph 40(1)(a) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act (determination by tribunal of detrimental effect of mobile home)"; and
- (ii) in sub-paragraph (2)(a), for "paragraph 5A(2) of Chapter 2, or paragraph 6(1) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule" substitute "paragraph 7(1) of Chapter 2, or paragraph 40(1) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule";

(g) in paragraph 55—

- (i) in sub-paragraph (1), for "paragraph 4, 5 or 5A(2)(b) of Chapter 2, or paragraphs 4, 5 or 6(1)(b) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act (termination by site owner)" substitute "paragraphs 5, 6 or 7(1)(b) of Chapter 2, or paragraphs 38, 39 or 40(1)(b) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act (termination by site owner)";
- (ii) in sub-paragraph (2)(b), for "paragraph 4, 5 or 5A(2) of Chapter 2, or paragraphs 4, 5 or 6(1)(b) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule" substitute "paragraphs 5, 6 or 7(1) of Chapter 2, or paragraphs 38, 39 or 40(1)(b) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule";
- (iii) in sub-paragraph (2)(c), for "paragraph 4 of Chapter 2, or paragraph 4 of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule" substitute "paragraph 5 of Chapter 2, or paragraph 38 of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule"; and
- (iv) in sub-paragraph (2)(d), for "paragraph 5A(2) of Chapter 2, or paragraph 6(1) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule" substitute "paragraph 7(1) of Chapter 2, or paragraph 40(1) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule";

(h) in paragraph 56—

- (i) yn is-baragraff (1), yn lle “o dan baragraff 8(1E) (gwerthu cartref symudol) neu 9(2) (rhoi cartref symudol) o Bennod 2 a pharagraff 6B(7) o Bennod 4 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983” rhodder “o dan baragraff 10(3) (gwerthu cartref symudol) neu baragraff 13(3) (rhoi cartref symudol) o Bennod 2 a pharagraff 42(8) o Bennod 4 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013”;
- (ii) yn is-baragraff (2)(a), yn lle “o dan baragraff 8(1A) o Bennod 2, neu baragraff 6B(1) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno” rhodder “o dan baragraff 10(1)(a) o Bennod 2, neu baragraff 42(1) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno”;
- (iii) ar ddiwedd is-baragraff (2)(a), mewnosoder “a”;
- (iv) yn is-baragraff (2)(b), yn lle “; ac” rhodder “.”; a
- (v) hepgorer is-baragraff (2)(c);
- (i) ym mharagraff 57—
  - (i) yn is-baragraff (1), yn lle “o dan baragraff 10(1) o Bennod 2, neu baragraff 8(1) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (adleoli cartref symudol)” rhodder “o dan baragraff 14(1) o Bennod 2, neu baragraff 44(1) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (adleoli cartref symudol)”;
  - (ii) yn is-baragraff (2)(c), yn lle “o dan baragraff 10(1) o Bennod 2, neu baragraff 8(1) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno” rhodder “o dan baragraff 14(1) o Bennod 2, neu baragraff 44(1) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno”;
- (j) ym mharagraff 58—
  - (i) yn is-baragraff (1), yn lle “o dan baragraff 10(2) o Bennod 2, neu baragraff 8(2) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (adleoli cartref symudol)” rhodder “o dan baragraff 14(3) o Bennod 2, neu baragraff 44(3) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (adleoli cartref symudol)”;
  - (ii) yn is-baragraff (2)(c), yn lle “o dan baragraff 10(2) o Bennod 2, neu baragraff 8(2) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno” rhodder “o dan baragraff 14(3) o Bennod 2, neu baragraff 44(3) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno”;
- (k) ym mharagraff 59—
  - (i) in sub-paragraph (1), for “paragraph 8(1E) (sale of a mobile home) or 9(2) (gift of a mobile home) of Chapter 2 and paragraph 6B(7) of Chapter 4 of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act” substitute “paragraph 10(3) (sale of a mobile home) or paragraph 13(3) (gift of a mobile home) of Chapter 2 and paragraph 42(8) of Chapter 4 of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act”;
  - (ii) in sub-paragraph (2)(a), for “paragraph 8(1A) of Chapter 2, or paragraph 6B(1) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule” substitute “paragraph 10(1)(a) of Chapter 2, or paragraph 42(1) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule”;
  - (iii) at the end of sub-paragraph (2)(a), insert “and”;
  - (iv) in sub-paragraph (2)(b), for “; and” substitute “.”; and
  - (v) omit sub-paragraph (2)(c);
- (i) in paragraph 57—
  - (i) in sub-paragraph (1), for “paragraph 10(1) of Chapter 2, or paragraph 8(1) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act (re-siting of mobile home)” substitute “paragraph 14(1) of Chapter 2, or paragraph 44(1) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act (re-siting of mobile home)”;
  - (ii) in sub-paragraph (2)(c), for “paragraph 10(1) of Chapter 2, or paragraph 8(1) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule” substitute “paragraph 14(1) of Chapter 2, or paragraph 44(1) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule”;
- (j) in paragraph 58—
  - (i) in sub-paragraph (1), for “paragraph 10(2) of Chapter 2, or paragraph 8(2) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act (re-siting of mobile home)” substitute “paragraph 14(3) of Chapter 2, or paragraph 44(3) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act (re-siting of mobile home)”;
  - (ii) in sub-paragraph (2)(c), for “paragraph 10(2) of Chapter 2, or paragraph 8(2) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule” substitute “paragraph 14(3) of Chapter 2, or paragraph 44(3) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule”;
- (k) in paragraph 59—

- (i) yn is-baragraff (1), yn lle “o dan baragraffau 16(b), 17(4) ac 17(8) o Bennod 2, neu baragraffau 14(b), 15(4) neu 15(8) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (y ffi llain)” rhodder “o dan baragraffau 17(1)(b), 17(6) ac 17(11) o Bennod 2, a pharagraffau 47(1)(b), 47(5) a 47(9) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (y ffi llain)”; a
- (ii) yn lle is-baragraff (2), rhodder—  
“(2) Y dogfennau penodedig yw—
  - (a) yr hysbysiad a gyflwynwyd i'r meddiannydd gan berchennog y safle o dan baragraff 17(3) neu (8)(b) o Bennod 2, neu 47(3) neu (7)(b) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno (pa un a'i cyflwynwyd erbyn yr amser sy'n ofynnol o dan y paragraff hwnnw ai peidio); a
  - (b) unrhyw ddogfen a gyflwynwyd ynghyd â'r cyfryw hysbysiad yn unol â pharagraff 23 o Bennod 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno.”;
- (l) ym mharagraff 60—
  - (i) yn is-baragraff (1), yn lle “o dan baragraff 18(1)(a)(iii) o Bennod 2, neu baragraff 16(1)(a)(iii) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (y ffi llain)” rhodder “o dan baragraff 18(1)(a)(iii) o Bennod 2, neu baragraff 48(1)(a)(iii) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (y ffi llain)”; a
  - (ii) yn is-baragraff (2)(ch), yn lle “o dan baragraff 22(e) ac (f) o Bennod 2, neu baragraff 20(f) ac (g) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno” rhodder “o dan baragraff 22(1)(e) ac (f) o Bennod 2, neu baragraff 52(1)(f) ac (g) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno”;
- (m) hepgorer paragraff 61; ac
- (n) ar ôl paragraff 61, mewnosoder—

**“Ceisiadau sy’n ymwneud â phenderfyniad awdurdod lleol i beidio â dyroddi trwydded safle**

**62.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 7(4)(b) o Ddeddf 2013 (dyroddi trwydded safle).

- (2) Y dogfennau penodedig yw—
  - (a) copi o'r hysbysiad o'r penderfyniad i wrthod dyroddi trwydded safle a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, a ddyroddwyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 7(4)(a) o Ddeddf 2013;

- (i) in sub-paragraph (1), for “paragraphs 16(b), 17(4) and 17(8) of Chapter 2, or paragraphs 14(b), 15(4) or 15(8) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act (the pitch fee)” substitute “paragraphs 17(1)(b), 17(6) and 17(11) of Chapter 2, and paragraphs 47(1)(b), 47(5) and 47(9) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act (the pitch fee)”; and
- (ii) for sub-paragraph (2), substitute—  
“(2) The specified documents are—
  - (a) the notice served on the occupier by the site owner under paragraph 17(3) or (8)(b) of Chapter 2, or 47(3) or (7)(b) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule (whether served by the time required under that paragraph or not); and
  - (b) any document accompanying such notice in accordance with paragraph 23 of Chapter 2 of Part 1 of that Schedule.”;
- (l) in paragraph 60—
  - (i) in sub-paragraph (1), for “paragraph 18(1)(a)(iii) of Chapter 2, or paragraph 16(1)(a)(iii) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 1 to the 1983 Act (the pitch fee)” substitute “paragraph 18(1)(a)(iii) of Chapter 2, or paragraph 48(1)(a)(iii) of Chapter 4, of Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act (the pitch fee)”; and
  - (ii) in sub-paragraph (2)(d), for “paragraph 22(e) and (f) of Chapter 2, or paragraph 20(f) and (g) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule” substitute “paragraph 22(1)(e) and (f) of Chapter 2, or paragraph 52(1)(f) and (g) of Chapter 4, of Part 1 of that Schedule”;
- (m) omit paragraph 61; and
- (n) after paragraph 61, insert—

**“Applications relating to a local authority’s decision not to issue a site licence**

**62.**—(1) This paragraph applies to an application under section 7(4)(b) of the 2013 Act (issue of site licence).

- (2) The specified documents are—
  - (a) a copy of the notice of the decision to refuse to issue a site licence and the reasons for the decision issued by the local authority under section 7(4)(a) of the 2013 Act;

- (b) unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol a roddwyd mewn perthynas â'r safle; ac
- (c) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod lleol.

#### **Ceisiadau sy'n ymwneud ag amodau trwydded safle**

**63.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adrannau 12(2) neu 14(1) o Ddeddf 2013 (amodau neu amrywio trwyddedau safle).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r drwydded safle ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrthi;
- (b) copi o'r Safonau Enghreifftiol a ddyroddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru; ac
- (c) unrhyw ddogfen berthnasol arall sy'n pennu'r rheswm dros osod neu amrywio amod ar drwydded safle.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod lleol.

#### **Ceisiadau sy'n ymwneud â hysbysiad cydymffurfio**

**64.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 17(2) o Ddeddf 2013 (hysbysiad cydymffurfio).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r drwydded safle ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrthi;
- (b) copi o'r hysbysiad cydymffurfio; ac
- (c) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod lleol.

#### **Ceisiadau sy'n ymwneud â chamau brys**

**65.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 21(9) o Ddeddf 2013 (camau brys).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) unrhyw hysbysiaid a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol i berchennog y tir o dan adran 21(3) neu (8) o Ddeddf 2013; a
- (b) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

- (b) any relevant planning permission granted in respect of the site; and
- (c) any other relevant documents supporting the application.

(3) The specified respondent is the local authority.

#### **Applications relating to conditions of a site licence**

**63.**—(1) This paragraph applies to an application under sections 12(2) or 14(1) of the 2013 Act (conditions or variation of site licences).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the site licence and any conditions attached to it;
- (b) a copy of the Model Standards issued from time to time by the Welsh Ministers; and
- (c) any other relevant document that specifies the reason for attaching or varying a condition to a site licence.

(3) The specified respondent is the local authority.

#### **Applications relating to a compliance notice**

**64.**—(1) This paragraph applies to an application under section 17(2) of the 2013 Act (compliance notice).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the site licence and any conditions attached to it;
- (b) a copy of the compliance notice; and
- (c) any other relevant documents supporting the application.

(3) The specified respondent is the local authority.

#### **Applications relating to emergency action**

**65.**—(1) This paragraph applies to an application under section 21(9) of the 2013 Act (emergency action).

(2) The specified documents are—

- (a) any notices served by the local authority on the owner of the land under section 21(3) or (8) of the 2013 Act; and
- (b) any other relevant documents supporting the application.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod lleol.

#### **Ceisiadau sy'n ymwneud â hawliad am dreuliau**

**66.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 22(7) o Ddeddf 2013 (hawlio treuliau).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) copi o'r hawliad am dreuliau a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol i berchennog y tir o dan adran 22(6) o Ddeddf 2013;
- (b) prawf o gollfarn am drosedd o dan adran 18(1), os yw'n briodol;
- (c) copi o unrhyw hysbysiadau perthnasol a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol i berchennog y tir o dan adrannau 17(1), 20(2), 21(3) neu (8) o Ddeddf 2013; a
- (d) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod lleol.

#### **Ceisiadau sy'n ymwneud â dirymu trwydded safle**

**67.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 28(2) o Ddeddf 2013 (cais am ddirymu trwydded safle).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) unrhyw dystiolaeth o dan adran 29(3) neu (4) y rhoddwyd sylw iddi gan yr awdurdod lleol;
- (b) os yw'n gymwys, yr hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 29(6)(a); ac
- (c) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y safle.

#### **Ceisiadau sy'n ymwneud â phenderfynu a yw person yn berson addas a phriodol**

**68.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 29(6)(b) o Ddeddf 2013 (apêl yn erbyn penderfyniad nad yw person yn berson addas a phriodol i reoli safle).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) yr hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 29(6)(a);

(3) The specified respondent is the local authority.

#### **Applications relating to a demand for expenses**

**66.**—(1) This paragraph applies to an application under section 22(7) of the 2013 Act (demand for expenses).

(2) The specified documents are—

- (a) a copy of the demand for expenses served by the local authority on the owner of the land under section 22(6) of the 2013 Act;
- (b) proof of conviction of an offence under section 18(1), if appropriate;
- (c) a copy of any relevant notices served by the local authority on the owner of the land under sections 17(1), 20(2), 21(3) or (8) of the 2013 Act; and
- (d) any other relevant documents supporting the application.

(3) The specified respondent is the local authority.

#### **Applications relating to the revocation of a site licence**

**67.**—(1) This paragraph applies to an application under section 28(2) of the 2013 Act (application to revoke a site licence).

(2) The specified documents are—

- (a) any evidence under section 29(3) or (4) that the local authority has had regard to;
- (b) if applicable, the notice served by the local authority under section 29(6)(a); and
- (c) any other relevant documents supporting the application.

(3) The specified respondent is the site owner.

#### **Applications relating to the decision of whether a person is a fit and proper person**

**68.**—(1) This paragraph applies to an application under section 29(6)(b) of the 2013 Act (appeal against a decision that a person is not a fit and proper person to manage a site).

(2) The specified documents are—

- (a) the notice served by the local authority under section 29(6)(a);

- (b) unrhyw ddogfennau sy'n cynnwys tystiolaeth o dan adran 29(3) a (4); ac
- (c) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod lleol.

#### **Ceisiadau sy'n ymwneud â rheolwyr interim**

**69.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 30(5) o Ddeddf 2013 (penodi rheolwr interim).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) unrhyw ohebiaeth berthnasol a roddodd neu a gafodd y ceisydd mewn cysylltiad â phenodi rheolwr interim; a
- (b) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod lleol.

#### **Ceisiadau sy'n ymwneud â gorchmynion ad-dalu pan fo'r safle heb ei drwyddedu**

**70.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 33(4) o Ddeddf 2013 (cais am orchymyn ad-dalu pan fo safle heb ei drwyddedu).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) unrhyw dystiolaeth ynglŷn â'r materion a grybwyllir yn adran 33(6);
- (b) unrhyw dystiolaeth ynglŷn â'r materion a grybwyllir yn adran 33(9); ac
- (c) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y safle neu reolwr y safle, yn ôl fel y digwydd.

#### **Ceisiadau sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Rheolau Safle**

**71.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan reoliad 10 o'r Rheoliadau Rheolau Safle (hawl i apelio i dribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniad y perchennog).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

- (a) yr hysbysiad o gynnig a ddyroddwyd o dan reoliad 8;
- (b) y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad a ddyroddwyd o dan reoliad 9; ac

- (b) any documents containing evidence under section 29(3) and (4); and
- (c) any other relevant documents supporting the application.

(3) The specified respondent is the local authority.

#### **Applications relating to interim managers**

**69.**—(1) This paragraph applies to an application under section 30(5) of the 2013 Act (appointment of interim manager).

(2) The specified documents are—

- (a) any relevant correspondence that the applicant has given or received in connection with the appointment of an interim manager; and
- (b) any other relevant documents supporting the application.

(3) The specified respondent is the local authority.

#### **Applications relating to repayment orders where site is unlicensed**

**70.**—(1) This paragraph applies to an application under section 33(4) of the 2013 Act (application for a repayment order where site is unlicensed).

(2) The specified documents are—

- (a) any evidence relating to the matters mentioned in section 33(6);
- (b) any evidence relating to the matters mentioned in section 33(9); and
- (c) any other relevant documents supporting the application.

(3) The specified respondent is the site owner or the site manager, as the case may be.

#### **Applications relating to the Site Rules Regulations**

**71.**—(1) This paragraph applies to an application under regulation 10 of the Site Rules Regulations (right to appeal to tribunal in relation to the owner's decision).

(2) The specified documents are—

- (a) the proposal notice issued under regulation 8;
- (b) the consultation response document issued under regulation 9; and

(c) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y safle.

**72.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan reoliad 17 o'r Rheoliadau Rheolau Safle (hawl i apelio i dribiwnlys ynghylch adneuad).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad a ddyroddwyd o dan reoliad 9; a

(b) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y safle.”

(c) any other relevant documents supporting the application.

(3) The specified respondent is the site owner.

**72.**—(1) This paragraph applies to an application under regulation 17 of the Site Rules Regulations (right to appeal to tribunal in relation to a deposit).

(2) The specified documents are—

(a) the consultation response document issued under regulation 9; and

(b) any relevant documents supporting the application.

(3) The specified respondent is the site owner.”

---

©<sup>©</sup> Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

---

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2014 Rhif 2553 (Cy. 247)**

**2014 No. 2553 (W. 247)**

**TAI, CYMRU**

**HOUSING, WALES**

Rheoliadau Gweithdrefnau a  
Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl  
(Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014

The Residential Property Tribunal  
Procedures and Fees (Wales)  
(Amendment No. 2) Regulations  
2014

£6.00

W2080/09/14

ON

ISBN 978-0-348-11007-4



9 780348 110074